

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 14 Mehefin 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Wrth edrych ar y newyddion yr wythnos ddiwethaf, mae'n anodd gwybod sut i ymateb mewn cyfnod mor gythryblus. Wrth i'r argyfwng iechyd barhau, gwelwyd protestiadau niferus yn erbyn hiliaeth ar draws sawl gwlad, gyda'r sefyllfa yn yr Unol Daleithiau yn frawychus yn dilyn marwolaeth a chamdriniaeth George Floyd dan law'r heddlu ym Minneapolis. Wedi hynny, dros y Sul cynhaliwyd protestiadau'r ochr yma i'r Iwerydd, a arweiniodd at lawer o drafod am y cysylltiad hanesyddol rhwng yr Ymerodraeth Brydeinig a chaethwasiaeth, a rôl Prydain a Chymru mewn cam-drin a gormesu cenhedloedd eraill ledled y byd. Erbyn yr wythnos hon, mae'r drafodaeth wedi dod yn agos iawn at adref gyda nifer yn galw am gael gwared â'r gofeb i H M Stanley o flaen y Llyfrgell yn Ninbych.

Nid oes modd dianc rhag y ffaith bod hiliaeth yn staen hyll arnom fel dynoliaeth, ac nad problem un wlad, nag un cyfnod o hanes ydyw. Gallwn fynd ymhellach a dweud fod casineb tuag at eraill yn batrwm trist sydd wedi'n nodweddu fel pobl o bob diwylliant a chefnidir hefyd. Ac er bod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar ffurfiau penodol o hiliaeth ac anghyfiawnder, cofiwn i lesu egluro fel hyn i'w ddisgyblion yn Marc 7:21-23 (Beibl.net):

“O'r tu mewn i chi mae meddyliau drwg yn dod, a phethau fel anfoesoldeb rhywiol, dwyn, llofruddio, godinebu, bod yn farus, bod yn faleisus, twyllo, penrhyddid, bod yn hunanol, hel straeon cas, bod yn haerllug ac ymddwyn yn ffôl. Y pethau drwg yma sy'n dod allan ohonoch chi sy'n eich gwneud chi'n 'aflan'.”

Felly sut ydym ni i ymateb? Yn gyntaf, gan gofio darlun Iesu o'r brycheuyn a'r trawst (Mathew 7:3-5), rhaid edrych ar ein hagweddu ni ac edifarhau am ein casineb – pa bynnag ffurf y mae'n ei gymryd yn ein bywydau. Ac wrth edifarhau, rydym i droi at Iesu mewn ffydd yn diolch mai Ef oedd yr un a ddaeth i'r byd i ddileu'r elyniaeth oedd yn ein gwahanu oddi wrth Dduw, ac oddi wrth ei gilydd. Wrth sôn am y rhaniad enfawr rhwng Iddewon a'r Cenhedloedd dywedodd Paul am Grist yn Effesiaid 2:15-16 'Ac felly, i wneud heddwch, creodd o'r ddau un ddynoliaeth newydd ynddo ef ei hun, er mwyn cymodi'r ddau â Duw, mewn un corff, trwy'r groes; trwyddi hi fe laddodd yr elyniaeth.'

Os ydi Duw wedi dangos y fath gariad atom ni, a ninnau'n haeddu dim o'i faddeuant, y peth lleiaf y gallwn wneud yw ufuddhau i'w Fab, a cheisio byw ein bywydau trwy'r Ysbryd yn caru ein gelynion ac yn casáu drygioni.

Rhodri

Ceisiadau Gweddi

Er nad oes modd oherwydd y cyfyngiadau presennol i gynnal Cyfarfod Gweddi arferol yr Ofalaeth, rydym yn naturiol yn parhau i weddio dros wahanol sefyllfaoedd a thros y rhai sydd mewn angen. Os oes gennych unrhyw geisiadau gweddi, plŷs cysylltwch â Rhodri.

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Eirwen Bailey (Llansannan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth sydyn ei mab, Gareth. Gweddiwn y bydd Duw yn cysgodi dros Eirwen a'r teulu ac y byddant yn profi Ei gariad yn fwy nag erioed dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn. Parhawn i gofio hefyd am eraill sy'n galaru am anwyliaid a gweddiwn eu bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu yn eu cynnal a'u cysuro yn eu galar a'u hiraeth.

Anfonwn ein cofion at Eirlys Owen (Llanefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty Llandudno a Falmai Evans (Saron) sydd bellach wedi symud i Ysbyty Gymunedol Treffynnon. Cyflwynwn y ddwy i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddan nhw'n cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn. Mae eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd a chyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan iddyn nhw i gyd a gweddiwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn gwarchod drostyn nhw.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Betty Evans (Llansannan) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig! Gobeithio y daw cyfle i chi gael dathlu cyn hir.

Llongyfarchiadau hefyd i Osian a Dwysan Williams (Llanefydd) ar enedigaeth mab, Gwion Aled. Gweddiwn drostynt fel teulu a diolchwn i Dduw am ei ddaioni tuag atynt.

Er y cyfyngiadau ar ymweld â'n gilydd yn ystod y cyfnod hwn mae gofal bugeiliol yn parhau trwy gyfrwng y ffôn. Cofiwch hefyd bod cyd-aelodau, blaenoriaid, Rhodri a Mair yn barod iawn i sgwrsio hefo chi os ydach chi dymuno'n ffonio ni.

Adnoddau Addoli

Mae'r un adnoddau addoli ag sydd wedi bod yn cael eu cyhoeddi yn Llais Bro Aled yn ddiweddar yn parhau ar gael. Cofiwch gysylltu os hoffech dderbyn unrhyw rai ohonynt.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyfarchion i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (24^{ain}), os gwelwch yn dda.